

Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd
Dydd Gwener 19 Gorffennaf 2019 10:30 – 13:30
Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, Siambrau'r Farchnad, 5-7 Heol Eglwys Fair, Caerdydd CF10 1AT

Cofnodion y Cyfarfod

Yn bresennol:

Jon Sparkes
Katie Dalton

Prif Weithredwr Crisis (Cadeirydd)
Cyfarwyddwr Cymorth Cymru

John Puzey
Lindsay Cordery-Bruce
Frances Beecher
Bonnie Navarra

Prif Weithredwr Shelter Cymru
Prif Weithredwr The Wallich
Prif Weithredwr Llamau (o 12:10)
Arweinydd Ysgogi Newid, Swyddfa Cenedlaethau'r Dyfodol

Glynne Roberts
Clarissa Corbisiero
Gaynor Toft
Nick Morris
Emma Williams

Rheolwr Rhaglenni BIP Betsi Cadwaladr
Cyfarwyddwr Polisi Cartrefi Cymunedol Cymru
Rheolwr Corfforaethol, Tai, Cyngor Sir Ceredigion
Rheolwr Polisi a Chyfathrebu Crisis
Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran Polisi Tai,
Llywodraeth Cymru

Mark Price

Arweinydd Prosiect ac Ysgrifenyddiaeth y Grŵp,
Llywodraeth Cymru

Ymddiheuriadau:

Peter Mackie
Tamsin Stirling
Naomi Alleyne

Uwch-ddarlithydd, Prifysgol Caerdydd
Arbenigwr Tai Llawrydd
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai
CLILC

Clare Budden

Prif Swyddog Gweithredol Cymdeithas Tai Clwyd
Alyn

Sarah Rhodes

Pennaeth Digartrefedd, Llywodraeth Cymru

Croesawodd JS bawb i ail gyfarfod y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd a nodwyd yr ymddiheuriadau.

Eitem 1 ar yr Agenda – Profiad Uniongyrchol

- Rhoddodd JP gyflwyniad ar lafar i'r grŵp. Nododd mai'r elfennau allweddol ar gyfer ymgysylltu â phobl sydd â phrofiad uniongyrchol yw:
 - recriwtio a chefnogi ymchwilwyr sy'n gymheiriaid;
 - adolygu ac addasu cwestiynau arolwg o arolwg yr Alban;
 - datblygu a chyhoeddi'r arolwg ar-lein;

- dadansoddi data a chanfyddiadau'r adroddiad;
 - adolygu'r llenyddiaeth bresennol a nodi bylchau;
 - addasu/cyd-ddatblygu digwyddiadau sy'n bodoli eisoes;
 - nodi themâu sy'n dod i'r amlwg;
 - adroddiad terfynol i gymheiriaid ar y camau nesaf.
- Nodwyd bod Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn trefnu tri digwyddiad yn dilyn yr ymchwiliad i gysgu allan yng Nghymru. Cytunodd y grŵp y byddai'n ddefnyddiol pe gallai JS a JP fynd i'r rhain. Cytunodd EW i wneud ymholiad drwy Glerc y Pwyllgor a'u cyflwyno. **Cam Gweithredu – EW**
 - Trafodwyd a oes angen dull gweithredu dau gam o ran ymgysylltu â'r rhai sy'n cysgu allan, yn dibynnu ar y ffordd y mae'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau yn gweithredu. Nododd JS y bydd yn rhoi gwybod am yr amserlennu a bydd amserlen gweddill y gwaith yn dibynnu ar hynny.
 - Caiff amserlen a chynllun adnoddau manwl eu llunio ar gyfer y rhaglen ymchwil cymheiriaid a bydd y gwaith yn dechrau mor fuan â phosibl. **Cam Gweithredu - JP**

Eitem 2 ar yr Agenda – Mentrau Cysylltiedig Llywodraeth Cymru

Rhoddodd EW gyflwyniad powerpoint – cyfeirier at y sleidiau. Roedd y prif sylwadau a wnaed gan y grŵp fel a ganlyn:

- O ran y Ddeddf Crwydradaeth, efallai y bydd yn bosibl cytuno â'r pedwar heddlu, drwy Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth, i beidio â defnyddio'r Ddeddf fel ffordd o ymdrin â'r rhai sy'n cysgu allan. Cytunodd EW i wneud ymholiadau cychwynnol. **Cam Gweithredu – EW**
- Awgrymwyd y dylid ymgysylltu ag arweinwyr nyrsys ysgol o ran diogelu. Cytunodd EW i weithredu ar hyn. **Cam Gweithredu - EW**

Eitem 3 ar yr Agenda – Fframwaith cyffredinol o bolisiau, dulliau gweithredu a chynlluniau

Rhoddodd JS gyflwyniad powerpoint – cyfeirier at y sleidiau. Roedd y prif sylwadau o'r drafodaeth ar ôl y cyflwyniad fel a ganlyn:

- Bydd y fframwaith hwn yn cynnwys set o egwyddorion y bydd popeth arall yn unol â nhw, o dan y diffiniad o "atal", wedi'i lunio a'i brif ffrydio yn y ffordd honno er mwyn sicrhau bod pawb yn ei ddeall yn yr un ffordd.
- Bydd angen sicrhau bod y diffiniad o "atal" y cytunwyd arno gan Lywodraeth Cymru yn cael ei ddefnyddio'n gyson.
- Mae angen sicrhau bod modd olrhain y gwaith yn ôl i fframwaith canlyniadau sydd wedi'i gysylltu ag amcanion polisi Llywodraeth Cymru ac wedi'i ategu gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
- Yn hytrach nag ystyried gweithlu sy'n seicolegol wybodus, mae angen inni ystyried sefydliadau a fframweithiau comisiynu cyfan.

- Mae Llywodraeth Cymru yn gwneud gwaith ar anghenion tai gweithwyr mudol a gwasanaethau cymorth perthnasol heb ddefnyddio arian cyhoeddus. Bydd EW yn anfon nodyn o'r gwaith hwn at y grŵp. **Cam Gweithredu – EW**
- Dylai Cartrefu'n Gyflym gael ei ystyried fel yr opsiwn cyntaf arferol i bawb sy'n ddigartref neu sy'n wynebu risg o ddigartrefedd, gyda Tai yn Gyntaf yn is-set arbenigol o hyn i bobl sydd ag anghenion cymorth mwy cymhleth.
- Cytunodd y grŵp y bydd y ffrwd waith "does neb yn profi digartrefedd fwy nag unwaith" yn parhau'n faes ar wahân am y tro, ond cydnabuwyd y gellid cyflawni hyn drwy weithredu ac ymgorffori pob un o feysydd eraill y fframwaith.
- Ystyrir lle mae angen deddfwriaeth, gan gydnabod y bydd is-ddeddfwriaeth a chanllawiau statudol yn haws i'w gweithredu na deddfwriaeth sylfaenol.
- Mae bwch enfawr rhwng dyraniadau a chynllunio tai. Mae Cartrefi Cymunedol Cymru yn cynllunio darn ar waith ar hyn o fis Medi a bydd yn cysylltu â llywodraeth leol. **Cam Gweithredu – CC, GT a NA**
- Bydd lefel yr hyn y mae "fforddiadwyedd" yn ei olygu yn wahanol ar gyfer grwpiau oedran gwahanol a lefel eu hincwm gwario. Bydd angen dadansoddi a diffinio "fforddiadwyedd" yng Nghymru, gan gynnwys ystyried goblygiadau treth a chyllid.
- Gofynnwyd i'r grŵp roi unrhyw sylwadau ychwanegol i JS mor fuan â phosibl. **Cam Gweithredu – Pawb**
- Caiff iteriad nesaf y gwaith hwn ei baratoi gan ystyried holl sylwadau'r grŵp. **Cam Gweithredu – JS/NM**

Eitem 4 ar yr Agenda – Lleihau achosion o gysgu allan yn y byrdymor, a rhoi terfyn arno'n gyfan gwbl.

Rhoddodd LCB gyflwyniad powerpoint i'r grŵp a dangosodd fideo (5 munud) "Safe Space". Yna, nododd y grŵp fod angen datblygu cynllun ar gyfer cysgu allan yng Nghymru wedi'i ategu gan fodol sy'n seiliedig ar set o egwyddorion y gellir eu cymhwyso ledled Cymru. Mae angen i'r grŵp hwn ystyried beth fydd yr egwyddorion hynny, a pha gamau y mae angen eu cymryd yn y byrdymor a'r tymor canolig.

Eitem 5 ar yr Agenda – Cyfathrebu â Rhanddeiliaid

Daeth amser y cyfarfod i ben cyn y gellid cyrraedd yr eitem hon ar yr agenda. Bydd CC a NM yn cael trafodaeth ar wahân ar ôl y cyfarfod ar faterion cyfathrebu â'r rheng flaen a rhanddeiliaid a chaiff nodyn ar wahân ei ddsbarthu'n manylu ar hyn. **Cam Gweithredu - NM**

Crynodeb o'r Pwyntiau Gweithredu

Rhif	Cam Gweithredu	Yn arwain
1	E-bost cyflwyniadol i Glerc Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau Llywodraeth Cymru.	EW
2	Amserlen a chynllun adnoddau manwl i'w paratoi ar gyfer y rhaglen ymchwil cymheiriaid.	JP
3	Ymholiadau cychwynnol o ran y ffordd y mae'r pedwar heddlu yng Nghymru yn defnyddio'r Ddeddf Crwydradaeth.	EW

SWYDDOGOL SENSITIF

4	Ymgysylltu ag arweinwyr nyrsys ysgol o ran diogelu.	EW
5	Nodyn ar waith Llywodraeth Cymru o ran anghenion tai gweithwyr mudol a gwasanaethau cymorth perthnasol.	EW
6	Gwaith arfaethedig Cartrefi Cymunedol Cymru ar ddyraniadau a chynllunio tai i'w ehangu i gynnwys cynrychiolaeth llywodraeth leol.	CC, GT, NA
7	Sylwadau ychwanegol ar gyflwyniad JS i'w hanfon dros yr e-bost at JS mor fuan â phosibl.	Pawb
8	Drafft nesaf o'r fframwaith cyffredin o bolisiâu, dulliau gweithredu a chynlluniau.	JS, NM
9	Dosbarthu'r cynllun cyfathrebu i staff rheng flaen a rhanddeiliaid.	NM